Gair bach Bethlehem 7

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 7 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

OEDFA A CHYMUNDEB AR-LEIN FORE DYDD SUL



Er bydd yr addoldy ym Methlehem yn wag, gallwch gyd-addoli mewn oedfa a chymun ar-lein fore dydd Sul – a hynny am y tro cyntaf erioed. Mae'r manylion yn neges Delwyn (isod).

Cofiwch y bydd yr Ysgol Sul yn parhau i fod ar gael yn fyw ar Zoom. Gweler tudalen 2 am fanylion sut i ymuno â'r gweithgaredd hwnnw.

Rhifyn orlawn arall – diolch i chi! Ble arall cewch chi Mrs Thatcher, Hywel Harris, David Attenborough, Paul Tillich a dau o fois Parc Nest (a mwy) gyda'i gilydd?

"Ffrindiau" Delwyn Sion

Pe bawn i'n dwyn i'ch cof yr enwau – Rachel, Monica, Phoebe, Chandler, Ross a Joey, dwi'n eitha' siŵr byddech chi gyd yn eu hadnabod fel y criw oedd yn y gyfres "Friends". Un o'r cyfresi comedi mwyaf llwyddiannus erioed, cyfres a ddaeth i ben yr wythnos hon nôl yn 2004, gyda 52 miliwn o bobl yn gwylio!!! Nawr, fe sylwch na fydd gwasanaeth yn y 'Gair Bach' yr wythnos hon, ac mae 'na reswm da am hynny. Mae gwasanaeth yr wythnos hon ar Youtube. Ewch i chwilio am https://youtu.be/MS9-qz-uCzg Ond cofiwch - fydd e ddim ar gael ***(Unavailable)*** tan fore Sul.

Dyma wasanaeth digidol cyntaf Tŷ Cwrdd Bethlehem. Ac mi fydd yna Gymun ar ddiwedd y gwasanaeth. I ymuno yn y cymun digidol bydd angen: ie, darn o fara arnoch chi – unrhyw fara, gwydred bach o ddiod – unrhyw ddiod, a gyda'n gilydd gawn ni rannu cymun ac eiliad bach o hanes yn hanes ein Ty Cwrdd. Mae'n annhebygol y cawn ni 52 miliwn o bobl yn ymweld a'r safwe i wylio'r gwasanaeth – er bydde 'na groeso iddyn nhw i gyd – ond yn bendant, mae 'na groeso i *chi* ymuno ar lein, cyfeillion, pererinion, aelodau - "Ffrindiau".

Delwyn

CYFRANNU AT Y BANC BWYD

Fel gwyddoch, mae hi wedi bod yn anodd, os nad amhosibl, i aelodau Bethlehem gyfrannu nwyddau fel o'r blaen at Fanc Bwyd Caerdydd. Fel trefniant tymor byr anfonwyd cyfraniad ariannol o'r eglwys yn nechrau Ebrill ac mae'r Trysorydd wedi derbyn llythyr o ddiolch ganddyn nhw am y rhodd o £1000.

Yn ein rhifyn cyntaf un o'r "Gair bach", cyfeiriwyd bod modd i chithau gyfrannu'n ariannol yn uniongyrchol yn hytrach na rhoi nwyddau. Gellir gwneud hynny trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y wefan isod:- https://localgiving.org/donation/cardifffoodbank. Cofiwch hyn:

• Gall £5 fod o gymorth i roi tanwydd yn y faniau sy'n trosglwyddo'r bwyd i'r canolfannau dosbarthu.

• Gall £10 fod o gymorth i gynnal dros 1000 o unigolion y mis sydd mewn angen (ac mae'r galw wedi bod ar gynnydd yn ddiweddar).

• Gall £20 fod o gymorth tuag at gostau'r warws sydd yn £1500 y mis.

Y dull uniongyrchol arall ydi drwy'r trolis sydd i'w cael yn yr archfarchnadoedd lleol:

- Asda'r Bae, Lecwydd, neu Pentwyn
- Co-op Treganna, Cathays neu Lanisien
- Morrison's Ffordd Casnewydd neu Tŷ Glas
- Sainsbury's Thornhill neu Colchester Ave
- Tesco Rhodfa'r Gorllewin, Croes Cwrlwys neu Llaneirwg
- Waitrose, Pontprennau.

Dyma'r anghenion mwyaf: Pwdin Sbwnj, Llaeth UHT, Sudd UHT, Sgwosh (poteli 1 litr), Reis (bagiau 500g neu 1kg), Pwdin reis tun, Cwstard tun, Tomatos tun, Jam, Ffrwythau tun, Llysiau tun, Cig tun.

Delyth Evans,
Yr Eglwys Newydd

Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf?

Erbyn Mai 14 at: tycnau@aol.com

CYMORTH CRISTNOGOL

Yr wythnos nesaf fe fydd hi'n Wythnos Cymorth Cristnogol. A bydd gwasanaeth arbennig yn cael ei ddarparu ar ein cyfer.

Ond mae'r arferiad o gasglu o ddrws i ddrws yn gorfod cael ei anghofio am eleni. Mae swyddfa Caerdydd ar gau ar gyfer derbyn sieciau a dydi'r mudiad ddim yn argymell i unigolion anfon sieciau ar hyn o bryd, beth bynnag. Os ydych hi am sgwrs yn Gymraeg yna ffoniwch eu swyddfa ym Mangor ar 01248 353574. Eu rhif yn Llundain ydy ***08080 006 006 - ac mae'r alwad am ddim.***

Mae trefniadau arbennig i dderbyn rhoddion gan eglwysi a mudiadau – naill ai ar-lein neu drwy sieciau. Mae modd hefyd i unigolion gyfrannu ar-lein. Mae'r manylion i'w cael ar eu gwefan: https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week

Yr Ysgol Sul

Heulwen Jones

Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd ar-lein dydd Sul nesa eto (*Mai 10fed****) ar yr un amser (****10.30****) ac y mae croeso i unrhyw un ymuno â'r sesiwn.***

Y drefn ydy bod Heulwen yn anfon linc yn uniongyrchol i'r teuluoedd. Os oes unrhyw un arall am ymuno, yna mae angen iddyn nhw roi gwybod i Heulwen ar e-bost neu ffôn *(manylion isod)* ac fe wnaiff hi "hala'r linc" iddyn nhw.

Heulwen Jones heulwen@btinternet.com 07779 360614

Huw yn dweud "Diolch"

Yn dilyn ein stori'r wythnos ddiwethaf, hoffai Huw Llywelyn Davies ddiolch i'r aelodau hynny o Fethlehem sydd wedi cefnogi ei ymdrech ddiweddar ar y beic i godi arian i Ysbyty Felindre.
"Bu'r ymateb yn gyffredinol yn anhygoel" meddai gan ychwanegu "Mae'n anodd gen i gredu bod y cyfanswm bellach (bore Mercher) wedi cyrraedd £3,517.00, ac mae'r arian yn dal i ddod mewn, a bu cyfraniadau hael gan aelodau Bethlehem yn ffactor bwysig wrth gyrraedd y swm hwnnw."
Cofiwch fod y wefan yn dal ar agor tan y Sul hwn, a gallwch gyfrannu drwy fynd at www.justgiving.com – yna rhoi enw "Huw Davies" yn y blwch "search" a'r un cyntaf i ymddangos ar y rhestr (hyd yn hyn, o leiaf) fydd "Her i Huw".

Ymdrech beic Huw Eic a'i her
Heno'n dair mil a hanner!

Rysait - Y Gacen Feiblaidd

(ewch ati i ddatrys y Pos isod. Ond, am y tro, â'r adnoddau'n brin, peidiwch coginio'r gacen, rhag ofn i chi wagio'r cwpwrdd. Mae'n edrych yn gryn bentwr, gyda mwy nag un dehongliad o'r atebion. Trowch i dudalen 6 i weld dehongliad Rhodri-Gwynn ohonyn nhw – ac mae e'n eitha cogydd, yn ôl y sôn!)

Mesurau	Llyfr	Pennod	Adnod	Atebion
½ pwys	Barnwyr	5	25	
½ pwys	Jeremeia	6	20	
llond llwy fwrdd	Samuel	14	25	
3	Jeremia	17	11	
½ pwys	1 Samuel	30	12	
½ pwys	Nahum	3	12	
1 pwys	1 Brenhinoedd	4	22	
2 owns	Numeri	17	8	
Pinsied	2 Cronicl	9	9	
Pinsied	Lefiticus	2	13	
Llond llwy de	Amos	4	5	
3 llond llwy fwrdd	Barnwyr	4	19	

GAIR O'R GWAELOD

Colofn cwbl an-olygyddol!

Un wennol ....

Mae 'na bâr o wenoliaid yn nythu ym mondo drws nesa. Bron yn ddi-ffael, maen nhw'n cyrraedd erbyn y cyntaf o Fai. Eleni, roedd un wedi cyrraedd ddiwrnod yn gynnar – minnau'n poeni nad oedd y cymar wedi goroesi a chyrraedd pen y daith. Ond yn wir, yn nhraddodiad rhai ar ddydd eu priodas, cyrhaeddodd y partner yn hwyr – yr hen flwyddyn naid yna, siŵr o fod, wedi drysu'r amserlen. Hynny neu'r ymynysu. Bu'r ddau'n cyd-oedi am y diwrnod – ond mae'r naill neu'r llall yn brysur yn rhywle bellach a dim ond un sydd i'w weld ar y tro erbyn hyn.

Ciwi

Na – nid cyfarchiad gogleddol o anwyldeb – ond fersiwn o'r enw am y ffrwyth "kiwi"! Pan ddaeth cyflenwad o lysiau hyfryd i'n drws ni, wedi'i archebu gan aelodau o'r teulu rhag ofn i ni newynu dan y gwarchae, roedd yna gyflenwad o'r ffrwythau hyn. Fel arfer, rydyn ni'n prynu un neu ddau ar y tro mewn archfarchnad, ond roedd cael ymron ddwsin o'r "ciwis" gyda'i gilydd yn her i'n bwydlen ymynysu. Ar ôl chwilota'r we, a gweld cymaint o rinweddau oedd i'r rhain, bu'n rhaid estyn y cwpan wy a dechrau eu bwyta fesul ffrwyth unigol, yn hytrach nag fel sleisen ac addurn ar ben rhywbeth arall. Yn ôl pob sôn, mae'r ffrwyth ddaeth yn gyntaf o Tsieina ac a fabwysiadwyd gan Seland Newydd yn dda i chi!

Gŵyl Banc cyntaf mis Mai

Ar ddydd Llun mae pob gŵyl banc arferol wedi bod, onid e?. (Heb anghofio'r Groglith, wrth reswm). Ond eleni, fe'i symudwyd o ddydd Llun Mai 4ydd hyd at ddydd Gwener, Mai 8fed. A'r cyfan i ddathlu "VE Day". Roeddwn i'n ddwyflwydd a hanner adeg yr un cyntaf. Mae gen i frith gof o fyrddau a danteithion wedi eu gosod ar lwybr caregog mewn pentre hynod wledig. Pa bryd wedi'r cadoediad oedd hynny, wn i ddim! Tybed oes gan rai ohonoch well cof am yr achlysur gwreiddiol? Rhowch wybod i ni – byddai'n braf cofnodi unrhyw atgofion.

Ifan

Hiwmor o'r cwrdd

Pregethwr mewn cwrdd diolchgarwch ar ei weddi yn anghofio'r gair 'gogoneddus' ac yn diolch i Dduw **"am yr holl feddyliau y .. ym .. godinebus a gawsom .."**

¤~¤~¤~¤~¤~

Roedd gan weinidog olaf y Presbyteriaid ar Ynys Enlli, y diweddar Barchedig W. J. Jones, siŵr o fod brofiad o fod wedi ei "ynysu". (Wedi hynny, bu'n weinidog ar Ynys Môn, ond profiad pur wahanol o fyw ar ynys oedd hwnnw!) Ar ddau achlysur lle bu'n ymweld â'n capel ni, roedd cloc y capel ar stop. Ei sylw y tro cyntaf oedd: **"Mae hi fel Tragwyddoldeb yma. Dydi amser yn golygu dim i chi!"**
A'r tro arall, gan gyfeirio eto at y cloc:
"Mae hwn yn dweud y gwir ddwywaith y dydd – sy'n fwy na fedrai ddweud am ambell un dwi'n ei 'nabod!"

¤~¤~¤~¤~¤~

Y cyn-Weinidog yn mynnu eistedd yn y sêt fawr a'r Gweinidog newydd yn codi ei destun o Lyfr Genesis 22, adnod 5: **"Arhoswch chi yma gyda'r asyn, mi af finnau a'r bachgen draw i addoli."**

¤~¤~¤~¤~¤~

Roedd y Parchedig John C. Evans, (brawd i daid Celyn Edwards, Gwaelod-y-garth) yn un direidus iawn. Mewn cyfarfod cyd-enwadol roedd angen llofnodi wrth fynd am ginio yng ngwesty crand "Y Bull", Biwmaris. O'i flaen, yn y ciw, yn arwyddo'r llyfr, roedd Y Gwir Barchedig G. O. Williams, oedd ar y pryd yn Esgob Bangor (ac Archesgob Cymru wedi hynny). Llofnododd hwnnw ei hun fel "***Gwilym, Bangor***". Dyna John Evans yn ei ddilyn ac ysgrifennu "***John, Biwmaris***".
John Evans oedd hefyd yn adrodd fel yr oedd yna drafod sut i ffarwelio ag ef ei hun o'i ddau gapel lleol – "**Cana a Gad**" yn ardal Bodffordd. Cododd rhyw hen frawd o flaenor ar ei draed a dweud "**Cynnig bod ni'n gwneud y peth amlwg – cana a gad iddo!**"

¤~¤~¤~¤~¤~

Cardi ar wyliau wrth Lyn Galilea a pherchennog y cwch yn hawlio £35 am drip. Y Cardi'n cwyno am y pris. "Ond syr," meddai'r cychwr "yma y cerddodd Iesu." **"Dim rhyfedd iddo fe gerdded a chychod mor gostus"** oedd yr ymateb.

Y Gymanfa Ganu (eto)

Rhodri-Gwynn Jones

Yn Methlehem, ei dirion drem
A ddygodd bawb at ei grud
Ei Seren Ef, a ddaeth a'r nef
A'r Ewyllys Da i ni gyd.

Mae gemau'r byd, a'i berlau drud
Yn bethau bregus eu braint
Drwy gystudd byr, y thus a'r myrr
Sy'n rhoi serenedd i'w saint.

Dwyysog Hedd, heb unrhyw gledd
Ein llywodraethwr wyt ti
Eneiniog Duw, rhyfeddol yw
Y Mab a roddwyd i ni.

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf o Gair bach Bethlehem at y Canfed Gymanfa Ganu a gynhaliwyd ym Methlehem yn 1988, ac am yr arfer o sicrhau cyfraniadau cerddorol, boed yn gerddoriaeth neu eiriau emyn, gan rai oedd a chyswllt â'r capel. Yn y rhaglen arbennig hon 'roedd yr emynau a'r tonau wedi eu dewis i gwmpasu'r ganrif a aeth heibio, gan nodi'r flwyddyn berthnasol yr ymddangosodd y darnau am y tro cyntaf yn y Gymanfa. Dewiswyd dau emyn o waith y Parchedig Ifor Rees, ar gyfer y rhaglen, un o 1972 (***chwith***) a'r llall o 1981 (***isod***). 'Rydym yn gyfarwydd a chanu un o emynau Ifor yn ein hoedfaon, sef rhif 20 yn" Caneuon Ffydd" ["*Athro da, ar ddechrau'r dydd*"].
Bydd llawer yn cofio Ifor, a Joan ei wraig, fel cyd-aelodau a chymwynaswyr mawr ym Methlehem dros y blynyddoedd.

Am yr Eglwys a'i chymdeithas
Lle mae teulu'r ffydd yn un
Yn ymorol am y Deyrnas
Gyda'i gilydd yn gytûn,
Am eu hyder wrth anelu
At y gamp uchela'n bod,
Am eu dawn i ymdawelu
I'r Penteulu rhoddwn glod.

Gyda'u cyd-ddyheu cariadus
Wrth ymaflyd yn eu gwaith
Fe ddaw grym y gras afradus
I'w tyweru ar eu taith,
Pan ymgasgla'r holl aelodau
Ar eu haelwyd ddiwedd dydd
Fe gyfannir eu profiadau
Gan Benteulu mawr eu ffydd.

Dillad Downing

Arwel Ellis Owen, Creigiau

Maen rhyfedd sut mae dilledyn yn atgoffa un o ddigwyddiadau diddorol rai blynyddoedd ynghynt. Tei glas silc ydy'r gwrthrych a rhif deg stryd Downing oedd lleoliad y digwyddiad.

Margaret Thatcher yn gwahodd newyddiadurwyr a darlledwyr i dreulio orig fach yn nghwmni aelodau'r Cabinet. Gwisg, sgidie a bag llaw newydd sbon i Margaret y wraig, yn ogystal â diwrnod cyfan o drin gwallt, gwinedd a cholur. Tei newydd ges i. Mae 'na lun acw ohona i'n sefyll wrth ddrws rhif deg pan aeth fy nhad a fi i Lundain am y tro cynta am basio'r 11 plus a chyfarfod modryb Margaret (ia, dwi'n sylweddoli bod na dair Margaret hyd yn hyn).

Cenhades oedd fy modryb, yn Shillong yn Assam, adre am brec wedi pum mlynedd o fod yn Matron ysbyty yr Hen Gorff yn India.

Bryd hynny roedd hi'n bosib cerdded draw i rhif deg heb bod neb yn holi na rhwystro'r ymweliad anffurfiol. Ddeg mlynedd ar hugain yn ddiweddarach roedd rhaid cael cymaint o bapurau i brofi pwy oeddan ni fel bo rhaid i Margaret wagu rhan fwya o gynnwys y bag llaw i gario'r dogfennau angenrheidiol. Doedd hynny ddim yn plesio, oherwydd fel y dywedodd “Fydd gen i ddim esgus i fynd i dŷ bach rhif deg, heb y colur, y crib, y brwsh gwallt a'r trugareddau eraill sydd yn hanfodol i bob gwraig”.

Saith or gloch oedd amser y digwyddiad, ond fe gyrhaeddom ni Whitehall hanner awr yn gynnar. Roedd hi yn bygwth glaw a dim lle i gysgodi. "Fe gymerith oes i ni fynd drwy y giât diogelwch" meddai Margaret. Ond nid felly oedd hi - roeddan ni ar stepan drws rhif deg mewn chwinciad. Doedd dim angen canu'r gloch, fe agorodd y drws enwog a phwy oedd yn disgwyl i'n croesawu ond y Prif Weinidog.

"Welcome!" a chynnig ei llaw, nid yn gymaint i'w hysgwyd ond i'n tynnu i fewn i'r dderbynfa.

"You are early" meddai gan ddweud mai cyd-ddigwyddiad oedd iddi gael ei hun yn agor y drws, gan bod hi ar ei ffordd o ystafell y Cabinet i'r llawr cyntaf lle roedd y derbyniad i ddechrau mewn chwarter awr.

"Since there are only you two, would you like a short tour of the building?"

A dyna sut daethon ni i ymweld a phob 'stafell o bwys, ac i ddringo y grisiau gyda llun pob prif weinidog, cyn cyrraedd y derbyniad.

"Trust the Welsh to come early" oedd ei chyflwyniad i aelodau y Cabinet oedd yn aros mewn rhes i gyfarch y gwesteion.

"I'm going to the powder room, I'm sure you want to go as well," meddai wrth Margaret. Dyna pam ddaeth y wraig yn un o fans mwya y Prif Weinidog a pham bod na “outfit” yn y wardrob gyda'r tei glas a nodyn sydd yn dweud "10 Stryd Downing".

A wyddech chi?

Yn yr Hen Feibl – nid y cyfieithiad diweddar - roedd yna:

3,566,480 o lythrennau
870,697 gair
31,175 adnod
1,189 pennod
66 llyfr

Tybed beth ydy'r cyfansymiau ar gyfer y fersiwn diweddaraf a hefyd Beibl.Net?

Hanes Bethlehem arall

Delyth Evans, Y Barri

Cyn i mi ymddeol, wrth i bobl ddeall fy mod yn gweithio i Undeb yr Annibynwyr yn Nhŷ John Penri, byddai sawl person yn amcanu bod y swydd yn un ddifrifol, sych-dduwiol, cul ond fedrai dim byd fod ymhellach o'r gwir. Roedd yno, yn y swyddfa a'r siop, gwmni bywiog, diddorol a gwaith amrywiol iawn, ac wrth ystyried aelodaeth yr Undeb o Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) des i gysylltiad â phobl o wledydd mor bellennig a Mizoram, De Affrica a Samoa, i enwi ond ychydig.

Bob mis Awst byddai'r Ysgrifennydd Cyffredinol ac ambell aelod arall o'r staff yn cymryd eu seibiant blynyddol a byddai Gareth, oedd yng ngofal y siop, a minnau yn cael ambell ddiwrnod rhydd gan adael y naill ohonom ar ein pen ein hunain.

Prynhawn felly oedd hi i mi pan es i ateb y drws wedi clywed y gloch yn canu. Yno, ar y rhiniog, safai gŵr byr, cyhyrog yn gwisgo byrion du a *string vest* gyda'r blewiach ar ei frest yn o i'r goleuni. Cyflwynodd ei hun i mi fel un o ddau frawd cwmni lleol a'i gwestiwn oedd, gan fod busnes tipyn yn llac dros yr haf, "*Do you have any chapels that you want demolished?*'

Ceisiais fy ngorau i'w ddarbwyllo nad oedd yr Undeb yn berchen ar unrhyw adeiladau heblaw yr un yr oeddem yn sefyll ynddo ar y pryd a bod pob capel Annibynnol yn eiddo i'r aelodaeth ac nad oedd gennym unrhyw hawl arnynt.

Doedd y dyn bach ddim i'w weld yn barod iawn i'm credu, gan ddweud "*I'm sure we **have** demolished a chapel for you in the past*"! Aeth ymlaen i ddweud iddo weld erthygl yn y papur nosweithiol, yr *Evening Post*, yn nodi hanes eglwys gyda'r achos ar fin dod i ben a hwyrach y byddai'r adeilad yn cael ei ddymchwel. Crafodd ei ben am ychydig eiliadau cyn ebychu *"I know, it was Bethlehem!"*

Fy ateb i oedd bod nifer fawr o gapeli gyda'r enw hwnnw yn aelodau o'r Undeb a gallasai fod yn unrhyw un o'r rheiny. Aeth i ffwrdd braidd yn anfoddog.

Ymhen hanner awr canodd y ffôn. Y dymchwelwr adeiladau oedd ar ben arall y lein! Roedd wedi mynd adref ac wedi dod ar draws y darn papur newydd perthnasol, gan gyhoeddi'n fuddugoliaethus – *"It's Bethlehem, Cadle!"*

Sut oedd cael gwared ar y dyn? Edrychais drwy *Flwyddiadur* yr Annibynwyr, rhoi rhif ffôn ysgrifennydd yr eglwys iddo a dweud wrtho i'w ffonio i holi a ddymunai i'r capel gael ei ddymchwel? Chlywais i ddim gair pellach gan y cwmni, nac ychwaith gan ysgrifennydd yr eglwys.

Mae 'na ddwy ochr i bob ceiniog ond oes? A'r hyn wnaeth fy nharo, wrth gofio'r digwyddiad hwn. oedd bod sefyllfa oedd yn drist i aelodau Bethlehem, Cadle, yn cael ei weld fel cyfle gwych i'r cwmni chwalu adeiladau. Ai felly yw hi i'n Bethlehem ni ar hyn o bryd? Nid fy mod, cofiwch, yn argymell dymchwel yr adeilad! Mae'r adeilad wedi gorfod cau ond mae'r amser presennol wedi dangos i ni bod 'na fwy nag un ffordd o gynnal eglwys a bod nawr wedi bod yn gyfle gwych i ni brofi ac archwilio ffyrdd gwahanol o gynnal ein cymdeithas a'n ffydd ac o fod yn eglwys.

* * * * *

Atebion - Y Gacen Feiblaidd*

Yn y golofn dde, gallwch weld dehongliad y Golygydd o'r hen fersiwn o'r Beibl, ac yna, mewn inc coch, dehongliad Rhodri-Gwynn a Beibl.net.
Ni fydd Gair Bach yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau bwyta'r fath gacen!

Mesurau	Llyfr	Pennod	Adnod	Atebion
½ pwys	Barnwyr	5	25	llaeth / enwyn Caws Colfran
½ pwys	Jeremeia	6	20	thus / corsen bêr sbeisiau
llond llwy fwrdd	Samuel	14	25	mêl gwyllt / mêl
3	Jeremia	17	11	petrisen / wyau
½ pwys	1 Samuel	30	12	teisen ffigys (neu rawnwin) reisin
½ pwys	Nahum	3	12	coed ffigys / ffigys
1 pwys	1 Brenhinoedd	4	22	peilliad / blawd / ychain pasgedig defaid / ceirw / iyrchod / ewigod / dofednod / blawd
2 owns	Numeri	17	8	almonau aeddfed almon
Pinsied	2 Cronicl	9	9	peraroglau / perlysiau
Pinsied	Lefiticus	2	13	halen/ halen
Llond llwy de	Amos	4	5	surdoes / burum
3 llond llwy fwrdd	Barnwyr	4	19	dwr / llaeth / llaeth

*** Ni fydd yr uchod yn un o dasgau'r "Bêc-off" nesaf!**

Y SAMWN YN 'SOWND'

John Evans, Radur

Digwyddodd un o brofiade gwych a byth gofiadwy a ddaeth i ran fy mrawd, Dai, a minne yn y flwyddyn 1953. Ar y pryd roedd Dai'n dair ar ddeg oed a minne'n unarddeg. Yn Nhregaron roedd wastad rhywbeth i'n difyrru a ninne'n dal i fod yn gryts ysgol. Cicio pêl ar hyd y caeau, towlu pêl rygbi o un i'r llall, swmpo pysgod, maglu cwningod, chwarae criced ar y stryd , chwarae 'cwato' hyd yn oed. Ac yn aml gweithgaredde clwb pobl ifanc capel Bwlchgwynt. A phan drodd yr haf yn hydre ac yn aeaf roedd y byrdde snwcer yn y 'Memorial Hall' wastad yn denu. Ro'dd rhywbeth ar gael, wastad. Magwraeth hudolus.

Ein Tad, Evan (Ianto) Jones Evans a ddysgodd Dai a minne shwd i osod gwialen a'r ffordd gywir o lansio'r lein, y bachyn a'r mwydyn i'r dŵr gan geisio denu'r pysgodyn gofalus i fachu. Profiad gwefreiddiol fyddai cwblhau'r weithred hon a lwyddodd i fachu ac i lanio degau lawer o bysgod chwim. Un o'n hoff lefydd oedd yr afon Teifi a redai drwy Cors Caron.

Yn ffodus i ni'n dou ro'dd y gors yn weddol o agos i'n cartre. O fewn deng munud ar gefen beic a dyna a ddeuai i'n rhan ar b'nawn Sadwrn pan nad oedd y peldroedwyr, y Tregaron Turfs, yn chwarae gartre. Cyrraedd yno, cwato'n beicie yn y clawdd, yng nghysgod Pont Einon, a brasgamu ar draws rhanne sych o'r gors i gyrraedd ein hoff bwll ble roeddem ein dou wedi profi llwyddiant yn weddol o aml o dan oruchwyliaeth ein tad!

A'r tro penodol hwn dechreuwyd yn llawn gobeth ond buan iawn y sylweddolwyd taw 'casto' yn erbyn yr awel a ddatblygodd mewn dim o dro i fod yn 'wynt' a wnaethpwyd! Deio shwd beth! Felly y penderfyniad oedd croesi'r afon, yn ôl dros y gors tuag at Pont Einon (Pont a godwyd yn y flwyddyn 1805)

Codwyd ein pac a dechre'r daith I'r ochr arall i'r afon gyda'r ddwy wialen ar ein hysgwydde. Sylwi fod car wedi parco ar y bont. Doedd hynny ddim yn ddigwyddiad anghyffredin gan fod golygfa hyfryd ar draws y gors o'r bont ei hun. Yna'r ddou cyw bysgotwyr yn cyrraedd yr un pwll ond nawr yr ochr arall i'r afon. "Reit, dyma ddechre o'r newydd! Ond "och" gwelais taw pen pin o fwydyn yn unig oedd ar ôl ar fy machyn. Ond ble roedd y bocs mwydod? Mae'n rhaid ein bod wedi'i adael yr ochr draw i'r afon. Twpsod! Er mawr glod iddo gwirfoddolodd Dai i ddychwelyd i'w gasglu.

Yn y cyfamser manteisiais ar y cyfle i ymarfer fy nghyflwyniad o'r lein i'r dŵr er gwyddwn na fyddai fy mhen pin o weddill y mwydyn yn denu sylw'r 'sildyn' lleia hyd yn oed!

Ar ochr arall y pwll roedd Dai'n straffaglu tra'n chwilio am y bocs mwydod. Ple ddiawch roedd e? "Hwre" fowr. Dechreuodd Dai ar ei siwrne eto i gyfeiriad y bont gan sylwi fod rhywun yn aros yno. Ymwelydd a'r ardal? Ie'n wir! Dechreuodd y ddou sgwrsio. Wedi'r cyfan doedd Dai ddim eisie bod yn anghwrtais.

Manteisiais ar y cyfle i ymarfer castio tra'n aros am fwydod. Castiwyd dro ar ôl tro gan sylwi fod Dai a'r dieithryn o ymwelydd yn dal i siarad. Erbyn hyn roedd y pen pin o abwyd hyd yn oed bron diflannu ond yna fe brofwyd hefer o sioc achos yn eithriadol o sydyn clywais blwc ar fy lein ac fe blygodd pen y wialen i'r dŵr . Y mowredd mowr beth oedd yn bod? Tynnu eto a chael fy nhynnu bron hyd nes baglu i mewn i'r afon. Tynnu a thynnu ac yna gweiddi pan weles anferth o greadur yn codi a neidio droedfedd yn uwch na'r dŵr! Yna sylweddolais 'ROEDD Y SAMWN YN SOWND'! Bloeddiais, beth yn gwmws does neb yn gw'bod hyd heddi, ond tynnwyd sylw'r deuddyn ar y bont!

"Hey," medde'r gwron *"your brother's in trouble,"* ac fe ruthrodd y ddau i gyfeiriad y cyffro. Roedd yr ymdrech barhaol o geisio rheoli fy nghorff yn ateb i symudiade'r pysgodyn wedi fy mlino . Beth ddiawch oedd i'w wneud? Beth oedd maint y samwn? Odi hyd dwyfraich agored crwtyn un ar ddeg oed yn awgrym teg? Cyrhaeddodd y ddou "Der a'r wialen yma", medde Dai. "Hwre", meddwn inne. Cyfrifoldeb Dai nawr oedd glanio'r anghenfil o bysgodyn. Bu tynnu cyson o'r ddau gyfeiriad a hynny am nifer o funude. Roedd Dai ei hun yn cael ei dynnu tuag at y geulan ond yn sydyn, tawelwch. Ar ôl munude lawer o wrthod ildio roedd y samwn yn rhydd o'r lein. Ymdawelodd popeth ar y gors.

Fy mai i oedd y cyfan. Cyngor cadarn fy nhad oedd imi fod yn ofalus tra'n clymu'r gyt i'r lein y noson gynt. "Paid clymu cwlwm ar y gyt neu fe fydd yn torri". Pan dynnwyd y wialen I'r lan gwelsom fod y gyt wedi torri ar y cwlwm! A minne wedi anwybyddu cyngor cyfrifol. Y ffŵl dwl!

O ie. Pwy oedd y gwr y bu Dai'n rhannu cwmni ag e ar y bont? Y gwr a ddaeth i gynnig cymorth inni yn ein cyfyngder? Dywedodd ei fod awchu datblygu ardal y 'Gors Goch' ger Tregaron yn hafan bywyd gwyllt megis yr un a fu'n gysylltiedig a fe ei hun mewn libart yn Lloegr. Sefydlwyd Canolfan Slimbridge ym 1946 gan y naturiaethwr Peter Scott, mab yr enwog Capten Scott ŵa anfarwolodd ei hun yn yr 'Antartig'. Gwireddwyd dymuniad yr ymwelydd cwrtais ym 1955 pan benderfynwyd y byddai Cors Caron o hynny ymlaen yn 'Warchodfa Natur'. Beth oedd enw'r ymwelydd dieithr ar y diwrnod pryd y bu'r 'samwn yn sownd'? Neb llai na David Attenborough! 'Ie', y David Attenborough hwnnw. Y naturiaethwr byd enwog!

Tybed a yw e'n cofio'r dydd y diflannodd y samwn oedd yn 'sownd'?

Pa flwyddyn oedd hi – dwedwch? **Glanhau ac addurno'r festri.**

Llun tri llawr sy'n haeddu tudalen gyfan i gyfleu'r holl weithgaredd!

Pryd oedd adeg sbriwsio'r festri? Yr ateb – 2005! Ydy, mae hi'n bymtheg mlynedd eleni.

O archif y Cwrdd Merched

Eirlys Davies, Radur

Yr wythnos ddiwethaf gwelsom lun o'r daith i Bantycelyn. Ar ôl ymweld â Phantycelyn, rhaid oedd i aelodau'r Cwrdd Merched ymweld â Threfeca, cartref y Diwygiwr Hywel Harris 1717 – 73. Tra'n gwrando ar Hywel Harris yn pregethu ym Mynwent Talgarth y cafodd William Williams dröedigaeth, a newidiodd drywydd ei fywyd yn gyfan gwbl, o astudio meddygaeth yn Athrofa Llwyn-llwyd gerllaw, a throi i geisio achub eneidiau.

Mae stori Trefeca'n un hir a diddorol iawn. Mae Coleg Trefeca hyd heddiw yn cael ei gynnal a'i ddefnyddio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dyma ddisgrifiad Alun Llywelyn-Williams o Drefeca yn ei lyfr "Crwydro Brycheiniog" (Llyfrau'r Dryw, Llandybie 1964).

"Lle saif y Coleg nawr, yr oedd hen gartref Susannah Powell a briododd saer coed dinod a ddaethai i'r ardal o Langadog, Sir Gaerfyrddin. Yma y ganwyd eu tri mab galluog. O'r fan hon yr aeth yr ieuengaf o'r tri, i maes i seinio utgorn y diwygiad crefyddol grymusaf a welwyd erioed yng Nghymru; a'r man yr ymneilltuodd iddo, wedi cweryl blin rhyngddo a'i gyd efengylwyr, nid er hynny, i lechu fel Achil yn ei babell, ond i gychwyn arbrawf cymdeithasol gyda'r rhyfeddaf a'r mwyaf diddorol yn ein hanes fel cenedl. Ac wedi tynnu'r hen gartre i lawr a chodi yn ei le y sefydliad i'r Teulu y bu'n ddiwyd yn ychwanegu rhannau ato bron hyd derfyn ei oes, dyma'r man lle bu Harris yn croesawu dan ei gronglwyd ŵyr a gwragedd hynota'r dydd, John Wesley, George Whitfield, a'r Arglwyddes Huntington, a llawer eraill. Holl aelodau'r cwmni grymus a gwreiddiol hwnnw a fu'n chwarae'u rhan ym mhasiant amrywiol, a hynod ddynol y Diwygiad. Mae'n amheus gennyf a oes yng Nghymru gyfan adeilad a welodd o dan ei do gynifer o bobl mor anghyffredin o ddiddorol a hwn. Pan oedd y Teulu Trefeca yn ei fri, roedd yn helaethach lle o dipyn. Cafodd yr Arglwyddes Huntington unwaith ugain stafell at ei gwasanaeth hi a'i gosgordd yn unig. A phan ddaeth John Wesley heibio yn 1763 gwelodd yma gant ac ugain o aelodau'r Teulu'n byw yma, "All diligent, all constantly employed, all fearing God and working righteousness".

Sefydlwyd Amgueddfa fach yn rhan o adeilad Trefeca yma, dangosir gynau a chleddau Harris, ei bwlpud ar gyfer pregethu yn yr awyr agored, celfi'r tŷ o'r ddeunawfed ganrif, a llawer o fân bethau diddorol eraill, megis y gloch a fu'n galw ffyddloniaid y Teulu i'w gweddïau deirgwaith bob dydd. Ond efallai mai'r adran fwyaf diddorol o'r cwbl yw'r enghreifftiau o'r llyfrau a brintiwyd gan Wasg Trefeca'n ystod y pymtheg mlynedd ar hugain y bu'n argraffu. Chwaraeodd y wasg hon ran bwysig a theilwng yn natblygiad cyhoeddi llyfrau Cymraeg, ac nid llyfrau crefyddol yn unig a argraffwyd ganddi. Gwasg Trefeca a argraffodd Gardd o Gerddi Twm o'r Nant, er enghraifft, a'r ddwy ran o'r Cylchgrawn Cymraeg a ymddangosodd yn 1793. Wrth gwrs, detholiad bychan o'r llyfrau a welir yn yr amgueddfa hon, ac y mae holl ddyddiaduron a llythyrau Harris wedi eu symud i'r Llyfrgell Genedlaethol. Yma yn Nhrefeca, yn yr amgueddfa ac ym mhensaernïaeth ddryslyd ei gartref, cawn ddarlun byw o bersonoliaeth gymysg a chymhleth y gŵr a gyfrifir gan lawer yn Gymro mwyaf ei ganrif, a oedd yn drefnydd, yn filwr, yn amaethwr, yn unben, yn snob, yn ogystal â diwygiwr."

Rhagor o Chwilota'r Archif — Yr Ysgol Sul a CAIB 2002

Bu'n rhaid mireinio ychydig ar ansawdd y ddau lun isod – nid oherwydd y cynnwys, ond am fod Bwletin Newyddion y capel yn cael ei ddarparu fel copi caled du a gwyn yr adeg honno. Doedd dim sôn am e-bostio rhifyn i bob aelod ar y pryd!
Felly ymddiheuriadau nad ydyn nhw mewn lliw. Mae'n bosib bod y lluniau gwreiddiol mewn lliw - ond copi o gopi ydy rhain! Gobeithio bod modd adnabod pawb!

Aelodau'r Ysgol Sul ar ddiwedd eu fersiwn blwyddyn 2002 o stori'r geni.

Aelodau CAIB (Cymdeithas Annibynwyr Ifanc Bethlehem) yn eu cyflwyniad ar gyfer Nadolig 2002. Pwy sydd am ddod i adrodd beth oedd y thema? Pwy sydd ag atgofion am y cyflwyniad? Gyn-aelodau CAIB – dewch 'mlaen!

Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf?

Erbyn Mai 14 ar e-bost i: tycnau@aol.com

Cwmnïau Dram R G Berry

Rhodri-Gwynn-Jones

Daeth tri o'r lluniau isod i Rhodri-Gwynn drwy law Don Llywelyn, Pentyrch. Rhai o gynyrchiadau Bethlehem yn y dyddiau fu ydyn nhw. Mae'r un ar y chwith (*1920 mae'n debyg*) yn hynod o debyg i lun cast "Asgre Lân" R G Berry, sydd yn llyfr Huw Ethall (*ar y dde*). Ond dydyn nhw ddim yn hollol yn yr un man, nac i gyd yn yr un gwisgoedd – nac ychwaith yr un cast! Cymharwch y mwstashus – a'r gwisgoedd hynod o debyg sydd gan rai!

Mae'r ddau lun olaf yma'n amlwg wedi eu tynnu ger drws Bethlehem – ar yr ochr dde ger y giât a'r grisiau. Mwy na hynny – wyddon ni fawr ddim am eu cefndir, na beth oedd yr achlysuron! Ond edrychwch ar y gwisgoedd! Mae'r merched yn llawer mwy niferus na'r dynion yn y cast uchod. Ai golygfa Feiblaidd ydy hi, tybed? Os felly – pa un?

A beth am y cast brenhinawl yn y llun isaf?

Mae Don Llywelyn yn credu mai tua 1900 – 1910 roedd rhain – felly tua degawd ynghynt na'r rhai ar dop y ddalen.

Os gwyddoch chi rywbeth – rhowch wybod!

Rhagor o Sampleri

Margaret Roberts

Fe wnes i addo i'r golygydd y baswn i'n ysgrifennu am fy ngwaith yn pwytho cerddi Prifeirdd ac un llawer mwy di-nod i gofnodi priodasau a genedigaethau yn ein teulu ni a dyma fi'n ufuddhau. Priodas gyntaf y teulu oedd un Gareth a Beth, nôl yn Hydref 1998 ym Mhorthaethwy, Sir Fôn. Priodas oedd hon lle roedd gwesteion y ddau deulu yn adnabod ac yn gyfarwydd â'i gilydd. Yn ffodus iawn i rywun oedd ag awydd creu sampler, cafwyd englynion a gyfansoddwyd yn fyrfyfyr gan ddau o frodyr Parc Nest ar y diwrnod – T. James Jones a John Gwilym Jones.

> Cadw gwasanaeth Porthaethwy, yn y cof
> fel cofio hen arlwy
> braf ddymunaf, a mwy –
> ei fod yn Bethgofiadwy. **(T.J.J)**
>
> Y ddau hoff fo'n ddiwahân, - i'w haelwyd
> Doed eli eu cusan,
> A dyddiau eu byw diddan
> I Beth a Gareth fo'n gân. **(J.G.J.)**

Wn i ddim, bellach, ai ar bapur neu ar napcyn y neithior cafodd y rhain eu creu a'u cofnodi. A fwriadodd y ddau i'w gwaith fod ar glawr – pwy a ŵyr? Ofynnais i ddim, ond pwythais y ddau englyn yn lliwiau'r briodas (uchod). Y gamp fwyaf, wrth reswm, ydy mesur lled pob llythyren a bwlch fesul twll yn y brethyn, a'i osod i edrych fel patrwm englyn. Nid oes yr un llinell yr un fath!

Genedigaeth dwy wyres fach y briodas honno ddaeth yn destun un o'r sampleri nesaf. Y tro hwn, bardd llawer llai enwog na bois Parc Nest yn cofnodi genedigaeth ei ddwy wyres gyntaf. Ganed Ffion yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd yn Llandudno – ddiwrnod wedi i ni gludo'r ddarpar fam, Beth, i'r maes am dro. Cyrhaeddodd Ffion ar ddydd cyntaf Mehefin, y flwyddyn dwy fil.

Pan gyrhaeddodd Betsan ym mis Medi ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 2002, rhaid oedd gorfodi'r bardd swrth i lunio englyn arall i gofnodi'r achlysur hwnnw hefyd – gan geisio matsio naws yr englyn blaenorol. Rhaid mod innau wedi loetran ychydig cyn dechrau pwytho – gan na wnes i bwytho un englyn yr un ar sampler. Yn y diwedd eu rhoi gyda'i gilydd ar yr un sampler wnes i! Rhan o'r gwaith sydd ar y dde – mae border pert o amgylch y cyfan.

Priodas Catrin a Jon oedd y digwyddiad pwysig nesaf. Iddew ydy Jon ac roedd y seremoni yn cyfuno traddodiadau Cristnogol ac Iddewig. Seremoni hynod o gofiadwy dan arweiniad deheuig Aled Gwyn. Ymhlith y gwesteion ym Miskin Manor roedd Mererid Hopwood a luniodd a darllen cywydd perthnasol a phersonol sy'n golygu cymaint i Catrin a Jon.

Detholiad yn unig ohono sydd ar y sampler (chwith):

> *A hi'n Dachwedd down heddi*
> *at y tân i'w chlywed hi,*
> *yr alaw ddaw â'r heulwen*
> *a neges gynnes ein gwên;*
> *mae nodau'r haf yma'n drwch,*
> *a'n dymuniad yw mynnwch*
> *daith berffaith mewn un bad,*
> *un cwrwgl yn llawn cariad. (MH)*

> *Yn y Weun ar nawn o ha' – ymunwn*
> *I ddymuno hindda*
> *'N ddiamod i'r ddau yma,*
> *Dedwydd daith a dyddiau da.*

Naw mlynedd yn ddiweddarach, priodod Hywel ag Elin, yn Waunfawr, Gwynedd – neu'r "Weun" ar lafar. Bu Ifan y straffaglu fwy nag arfer i weithio englyn ar gyfer yr achlysur y tro hwn, gan ei orffen mewn siop esgidiau yn Llandudno, tra roedd Ffion yn trio pob esgid yn y lle! Roedd y dedlein ar gyfer y taflenni, erbyn hyn, yn hynod agos. Daeth rhyw lun o ysbrydoliaeth ymhlith y bocsys a dyna anfon yr englyn ar neges destun o'r siop at y Bonwr Rhys Dafis, Llansannan, ei gyn athro cynganeddion, i gadarnhau ei fod yn gywir. Roedd yr athro'n cymeradwyo – heb ddweud ei fod yn glasur! Ymgorfforais yr englyn mewn sampler o lun o dŷ sy'n llawn o symbolau hapusrwydd, ffyddlondeb a chariad. *(dde uchod)*

(Ymddiheuriadau am y lluniau – byddai'n haws darllen y geiriau pe byddai'r sampleri yn eu llawn faint!)

Gyda llaw, ymatebodd un o gyd-aelodau Bethlehem i fy erthygl blaenorol gan nodi (yn gwbl gywir) bod fy mhenderfyniad i ddarparu ar gyfer wyresau'r teulu'n unig yn tueddu i fod yn "secsist".

Gwir fod gennym ddau ŵyr di-sampler ar hyn o bryd - ond a fydden nhw'n gwerthfawrogi un sy'n gwestiwn arall. Byddai brodio wyneb Gareth Bale neu Aaron Ramsey ar grys yn fwy tebygol o blesio. Ble mae'r nodwydd yna?

Paul Johannes Tillich — Allan Pickard

Roedd gweld y dyfyniad yma ar dudalen *facebook* Bethlehem yn ddiweddar yn ysgogiad i fwrw golwg unwaith eto ar un o ddiwinyddion mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif.

Ganed Paul Tillich yn 1886 mewn rhan o Ddwyrain yr Almaen ddaeth, ymhen amser, yn rhan o Wlad Pwyl. Roedd ei dad yn weinidog Lutheraidd, ceidwadol ei ffordd a'i natur. Roedd ei fam yn fwy rhyddfrydol, ac roedd yn hoff iawn ohoni, a bu ei cholli pan oedd yn 17 oed yn ergyd drom. Roedd ganddo ddwy chwaer.

Symudodd y teulu i Berlin, lle'r oedd cyffro bywyd y ddinas yn apelio'n fawr ato. Fe wnaeth yn dda yn yr ysgol a'r coleg. Cafodd doethuriaeth mewn athroniaeth yn 1910, ac yn 1912 dilynodd yn ôl traed ei dad a chael ei ordeinio'n weinidog yn Yr Eglwys Lutheraidd Efengylaidd.

Priododd yn 27 oed, a'r un flwyddyn gwirfoddolodd i fod yn gaplan ym myddin yr Almaen yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Enillodd ddwy *Iron Cross* am ddewrder. Pan oedd yn y fyddin bu ei wraig yn anffyddlon, a chafodd fabi. Daeth y briodas i ben yn 1921.

Ymunodd ym mywyd gwyllt *(decadent)* Berlin yn y blynyddoedd wedi'r rhyfel. Ac yn y cyfnod yma fe briododd Hannah Werner. Yn ôl pob son, bu'n briodas "agored" o'r ddwy ochor.

Dechreuodd ei yrfa fel athro ym Mhrifysgol Berlin yn 1919. Bu'n athro mewn sawl prifysgol, a phan ym Mhrifysgol Frankfurt, enynnodd lid y Natsïaid. Pan ddaeth Hitler yn Ganghellor yr Almaen yn 1933, cafodd ei ddiswyddo. Cafodd ei berswadio gan ddiwinydd Americanaidd, Reinhold Niebuhr, oedd ar ymweliad â'r Almaen, i symud i Efrog Newydd i ymuno â staff yr Union Theological Seminary. A dyna a wnaeth yn 47 oed. Ei dasg gynta' oedd dysgu Saesneg, ac yn yr iaith honno yr ysgrifennodd ei lyfrau mwya' dylanwadol, yn bennaf tair cyfrol *Systematic Theology,* rhwng 1951 ac 1963.

Fe ddes i ar ei draws pan oeddwn yng Ngholeg Coffa'r Annibynwyr. Yn y dyddiau hynny byddai pregethwyr o fri yn cyhoeddi cyfrolau o'u pregethau. Roedd yna fynd ar eu darllen hefyd, a byddai ymweliad â siop lyfrau'r enwad yn Nhŷ John Penri i chwilio am y cyhoeddiadau diweddara'n bleser cyson. Cyhoeddodd Tillich tair cyfrol o bregethau. Mae dwy o'r rheini gennyf o hyd: *The Shaking of the Foundations* a *The Eternal Now.* Mae hunan-ynysu yn rhoi digon o amser i'w darllen eto.

Mae'n anodd crynhoi, yn syml, ddiwinyddiaeth Tillich. Y syniad o "fod" (being) yw'r man cychwyn, a Duw yw "the ground of being". Mae'n gwrthod y syniad o Dduw anthropomorffaidd, personol, ond dyw e ddim yn gwadu realiti Duw. Pan fu farw yn Chicago yn 1965, roedd yn dal i chwilio am atebion i gwestiynau dyfnaf bywyd a chred.

Os am ddarllen mwy ewch i'r Encyclopaedia Britannica https://www.britannica.com/biography/Paul-Tillich

Ac os nad ydych yn dilyn Bethlehem ar facebook beth am ymuno â'r grŵp?

https://www.facebook.com/groups/591419628383327/?ref=bookmarks]

Hanes Bethlehem yn "Tafod Elai" — Rhodri-Gwynn Jones yn chwilota eto!

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf "Tafod Elai", papur bro'r ardal i'r gogledd o Gaerdydd, sy'n ymestyn o Bontypridd i Lanhari, ac o Donyrefail i Bentyrch, ym mis Hydref 1985. O'r cychwyn bu gohebwyr lleol pentref Gwaelod-y-garth (Alwyn Harding Jones a June Huws) yn cynnwys newyddion am Gapel Bethlehem yn eu colofnau misol.

Isod wele gip ar beth o gynnwys rhifynnau cynnar 1986 – rhagor y tro nesaf!

O "Tafod Elai Rhif 4 – Chwefror 1986

Cynhaliwyd ymarfer llawn ar gyfer darllediad Nadolig HTV nos Fawrth Rhagfyr 10fed ym Methlehem ond oherwydd gweithredu diwydiannol trydanwyr HTV gohiriwyd y recordio tan ddydd Llun 23ain, a hynny yn stiwdio HTV yn yr Wyddgrug. Darlledwyd y gwasanaeth ar noswyl y Nadolig. Yn anffodus amhosibl oedd i lawer o ffyddloniaid Bethlehem deithio i'r Wyddgrug ac mae'n sicr y bydd llawer o ddillad crand yn ymddangos am y tro cyntaf yn awr yng nghymanfa'r Pasg!

O "Tafod Elai Rhif 13 – Rhagfyr 1986

Bu gwasanaeth arbennig iawn ym Methlehem ar Sul Tachwedd 16 pan dderbyniwyd Mrs Eluned Scott, Ms Gillian Green, Mrs Eleri Jones, Dr Meurig Davies, Mr Peter Thomas a Mr Eurfyn Thomas yn ddiaconiaid newydd. Pob llwyddiant iddyn nhw gyda'u gwaith.

Bydd Cinio Nadolig Bethlehem yn festri'r capel ar nos Sadwrn 20fed Rhagfyr. Ar fore Sul 21ain Rhagfyr bydd gwasanaeth Nadolig y plant pan fyddant yn perfformio'r ddrama "Babwshca" gan Emyr Edwards.

Babi Newydd

Mae'n bleser llongyfarch dau o aelodau Bethlehem, Heulwen a Wyn Jones o'r Eglwys Newydd ar enedigaeth mab, Ieuan Peredur, brawd bach i Sioned. Wyn yw arolygwr yr Ysgol Sul.

ODLAU'R GARTH

Dadleth

We live in our own world,
A world that is too small
R S Thomas

Fe fyddai'n well cael estyn llaw,
yr ego'n mynnu bod yn ddall.
Rhaid chwalu walydd llid a braw.

Y llwybyr fydd yn ddi-ben-draw
(paid meddwl hyn, ti ddim yn gall).
Fe fyddai'n well cael estyn llaw.

Ni wn i pryd ond gwn y daw
er wfftiaf farn y naill a'r llall.
Rhaid chwalu walydd llid a braw.

Daw heulwen hir rôl gwynt a glaw
er chwydda'r hunan, does dim pall.
Fe fyddai'n well cael estyn llaw.

Gwell croesi ffin i'r ochor draw,
cyfadde bai a maddau gwall.
Rhaid chwalu walydd llid a braw.

Ar regi pawb rhaid rhoddi taw
a dadleth gafael rhew di-ball.
Fe fyddai'n well cael estyn llaw.
Rhaid chwalu walydd llid a braw.

Martin Huws

* * * * *

Seiclo i Goedwig y Wenallt

Ger y môr, treulio'r bore
Dan niwl trwm; mor llwm yw'r lle
Yna rhaid yw torri'n rhydd
Â'm annel tua'r mynydd.
Fe af ar streic, a seiclo
Ar frys ar hyd llwybrau'r fro
Yn gadarn tua'r goedwig.
Herio'r bryn, dringo i'r brig.

A llithraf lawr y llethrau
Gyda'r gwynt, llygaid ar gau.
Dros y naid, i'r llaid, trwy'r llwyn
Anelaf fy nwy olwyn.
Ar gwr y coed fe oedaf.
Lan y bryn mae'n heulwen braf.
Niwl fu'n sgrîn dros y ddinas -
Yn ei le mae awyr las.

Rhys Powys

Dyma un o'r archif – gwaith y diweddar Barchedig Ifor Rees. Bydd nifer dda yn eich mysg yn cofio'r diweddar T. W. Thomas. Fe'i ganed yn nechrau'r ganrif ddiwethaf a bu farw ychydig cyn i'r ganrif ddod i ben, yn 99 mlwydd oed.

I gyfarch Mr T. W. Thomas
am hanner canrif a mwy o wasanaeth
fel diacon yn Bethlehem, Gwaelodygarth.

Y gwylaidd ŵr o'r Gwaelod
A Chymrawd yr Eisteddfod
Hawddamor, a chyfarchion lu
Ar ddydd y dathlu hynod.

Englynwr da a phrydydd
A thenor, a hanesydd
A phen gymodwr ymhob cur
Rhwng gŵyr Pentyrch a'i gilydd!

Bu'n hael ei gymwynasau
I fyrdd o gymdeithasau
Heb anghofio'r ddyled fo
I'w fro ac i'w berthnasau.

Fe gafodd sawl anrhydedd
Gan Genedl a Gorsedd
Ond cyd-addoli yng nghwmni'r saint
Yw pennaf fraint ei fuchedd.

O ddynion yr hawddgara
Pob cwmwl fo wasgara
Bu'n ffyddlon was i Bethlehem
A'i drem ar Fryn Calfaria.

A heddiw am T. W.,
Y diacon diledryw,
Mawrygwn hanner canrif faith
O wir wasanaeth clodwiw.

Ifor Rees